OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1275 (Cy.121)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *9 Mai 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *3 Gorffennaf 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn gan arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 8, 20 a 190 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac a freinir bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y gellir eu harfer o ran Cymru (**2**).

(**1**) 1989 p.42. Diwygiwyd adran 8 gan O.S. 2002/803 (Cy. 88).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 8, 20 a 190, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672 ); *gweler* y cofnod yn Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006, Introductory Text.